



## **Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 (2020/21)**

### **Rhaqair y Cadeirydd**

Mae'r Cydbwyllgor Archwilio (JAC) yn annibynnol ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ac mae'n cynnwys unigolion sydd â'r arbenigedd a'r profiad perthnasol i ddarparu goruchwyliaeth annibynnol o drefniadau llywodraethu ac amgylchedd rheoli mewnol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Llu.

Fel y Cadeirydd newydd, o fis Mawrth 2020, hoffwn gydnabod yn ffurfiol gyfraniad sylweddol holl aelodau'r JAC, a enwir mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn, am eu hymrwymiad a'u mewnbwn parhaus, nid yn unig yn y cyfarfodydd ffurfiol ond hefyd yn yr ymgynghoriadau a'r trafodaethau niferus sy'n digwydd i ffwrdd o'r cyfarfodydd hynny ac sydd wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn anarferol hon.

Cynhaliwyd pum cyfarfod ffurfiol, pob un ohonynt yn rhithiol, yn ystod y flwyddyn, gydag agendâu eang ac amrywiol a oedd yn adlewyrchu dull cynyddol y JAC o gyflawni ei rwymedigaethau o dan Gylch Gorchwyl sydd wedi'i ymestyn. Fel arfer, byddem yn cynnal sesiynau archwiliad dwfn i'r meysydd mwyaf perthnasol a brys sy'n wynebu ein heddlu yn dilyn ein cyfarfodydd pwyllgor, ond eleni rydym wedi cynnal rhai o'r rhain ar wahân pan fo'n fwy ymarferol i wneud hynny.

Yn ogystal â'u cyfrifoldebau cyfunol fel aelodau o'r Pwyllgor, mae JAC yn mabwysiadu swyddogaethau "aelod arweinïol" sy'n golygu bod aelodau unigol yn gallu dod â'u sgiliau a'u gwybodaeth benodol i wahanol bynciau gan felly alluogi gwell pwyslais a chraffu gan y Pwyllgor yn ei gyfanrwydd. Mae hyn wedi bod o werth arbennig eleni gyda mwy o ohebiaeth e-bost.

Mae pandemig COVID, fel gyda phob sefydliad, wedi gofyn am ymateb wedi'i gydlyn, neilltuo adnoddau yn addasol ac yn hyblyg a mwy o graffu a sicrwydd bod y galw sy'n newid ar ein heddlu yn cael ei fodloni'n effeithlon ac yn effeithiol gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Roedd y pwysau ariannol parhaus ar gyllidebau plismona felly yn parhau i fod yn her fawr a pherfformiad cyllidebol ac ariannol yn cael ei fonitro'n agos. Yn 2019/20 gwelsom yr Adran Gyllid yn parhau i wella sut yr oedd yn ymateb i heriau y gofynion cau cyfrifon diwedd y flwyddyn yn gyflymach ar gyfer 2018/19, mabwysiadu

newidiadau parhaus i systemau gweithredu ac ad-drefnu staff. Yn 2020/21 roedd yn amlwg bod rhagor o welliannau wedi eu gwneud ac roedd llythyr rheoli mwy cadarnhaol ar gyfer cyfrifon 2019/20. Fodd bynnag, gwnaeth materion yn gysylltiedig â COVID roi straen ar y gallu i gyflawni'r terfynau amser cau er gwaethaf ymdrechion sylweddol gan yr Adran Gyllid ac Archwilio Cymru a gwnaethom benderfynu gohirio cymeradwyo'r cyfrifon tan fis Medi. Daeth oedi annisgwyl pellach cyn cau, a brofwyd gan bob un o'r heddluoedd, yn sgil penderfyniad hwyr y Trysorlys ar yr angen i adlewyrchu atebolrwydd pensiynau yn y cyfrifon a achoswyd gan ganlyniad achos McCloud.

Mae'r ddarpariaeth TG trwy'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS) yn parhau i fod angen archwiliad agosach gan ddefnyddio'r adroddiadau archwilio ac eto, tra bod gwelliannau wedi'u cyflawni bydd disgwyl mwy. Mae prosiectau cydweithio wedi cynyddu gyda'r amcan i sicrhau mwy o arbedion a gwella effeithiolrwydd ehangach ac rydym yn un o'r cydbwyllgorau archwilio sy'n monitro gweithrediad a chyflawniad y canlyniadau buddiol disgwylieidig. Dyma faes a fydd yn parhau i fod angen canolbwyntio arno a gwella cydlynu blaenoriaethau, cyflawni a chraffu.

Rwy'n ychwanegu fy ngwerthfawrogiad, fel y gwnaeth cadeiryddion blaenorol, i'r holl staff cymorth, uwch swyddogion cyllid a swyddogion gweithredol o'r Llu a gynorthwyodd ac a lywiodd y JAC drwy ei swyddogaeth oruchwylio ac mae'r Pwyllgor yn parhau i werthfawrogi yn arbennig mewnbwn y Comisiynydd, y Dirprwy Gomisiynydd, y Prif Gwnstabl a'r Dirprwy Brif Gwnstabl, y mae eu presenoldeb yn y cyfarfodydd yn effeithio'n gadarnhaol ar waith y JAC ac yn hwyluso adborth ar gamau gweithredu sy'n codi. Gwnaeth etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd a ohiriwyd ddarparu lefel o sefydlogrwydd a oedd yn allweddol iawn gyda'r heriau a gododd yn sgil y pandemig.

Gall perthynas weithio dda rhwng yr archwilwyr a JAC a thrafodaeth agored a gonest ar adroddiadau a materion sy'n codi ond fod o fudd i ddatblygiad parhaus yr amgylchedd rheoli o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Heddlu. Rhaid i mi ddiolch i'r timau o Archwilio Cymru a TIAA, yr archwilwyr allanol a mewnol yn y drefn honno, am eu hadroddiadau a'u cyfraniad i'r cyfarfodydd. Rydym yn parhau i gredu ei bod yn bwysig bod y tîm archwilio mewnol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, sy'n archwilio'r ddarpariaeth TG a ddarperir gan y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS), yn mynychu cyfarfod JAC o leiaf yn flynyddol i gyflwyno'r adroddiad blynyddol a'r cynllun archwilio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, fodd bynnag, rheolir hyn trwy Swyddogion Cyllid y gwahanol gyrff a'u hadrodd i JAC. Rydym yn cydnabod mai penderfyniad mwyafrifol yw hwn ond rydym yn parhau i deimlo'n ddatgysylltiedig ac yn aml yn anfodlon â'r gwaith o gydlynu blaenoriaethau a'r cynnydd yn dilyn hynny ar welliannau blaenoriaeth y cytunwyd arnynt.

Rydym ni wedi cael gwybod bod effaith y pandemig wedi costio £0.8 miliwn ac mae'n debygol o fod â heriau ariannol pellach yn y flwyddyn sydd i ddod wrth i'r cyfyngiadau symud barhau. Serch hynny, rydym hefyd yn teimlo, o'r adroddiadau a ddarparwyd gennym, ar sut y mae Heddlu Gwent wedi rheoli heriau'r pandemig bod arbedion

effeithlonrwydd y gellid parhau â nhw, ac edrychwn ymlaen at weld cynlluniau ar gyfer hyn a bydd yn rhan o'n pwyslais cyllidebu a gwerth am arian yn 2021/22.

Ac yn olaf, rydym yn croesawu'r cyfle i ddatblygu'r berthynas waith ragorol a sefydlwyd gennym gyda'r Comisiynydd, Jeff Cuthbert, yn dilyn ei ailetholiad. Mae fy mlwyddyn gyntaf fel cadeirydd yn sicr wedi bod yn ddiddorol ac rwy'n gwerthfawrogi bod y ddau gadeirydd blaenorol, Jon Sheppard a Roger Leadbeter, yn parhau i fod yn aelodau o'r JAC ar ôl eu cyfnod fel cadeirydd. Mewn cyfnod anarferol mae'r wybodaeth a oedd ganddynt wedi bod yn hanfodol.

**Dawn Turner**

## **Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio**

### **1. Cefndir**

Mae Cydbwyllgor Archwilio (JAC) yn gweithredu yng Ngwent yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) a'r Cod Ymarfer Rheoli Ariannol ar gyfer Gwasanaeth Heddlu Cymru a Lloegr, adran 11.1.3.

### **2. Rôl y Cydbwyllgor Archwilio**

Pwrpas y JAC yw rhoi cyngor a sicrwydd annibynnol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar faterion sy'n ymwneud ag amgylchedd rheoli mewnol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Swyddfa'r Comisiynydd) a'r Heddlu yn ôl egwyddorion llywodraethu da. Bydd y JAC:

- ❖ yn ystyried adroddiadau archwilio mewnol ac allanol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl;
- ❖ yn rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ynghylch digonolrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheoli cysylltiedig;
- ❖ yn craffu ar gynllunio a pherfformiad ariannol y Comisiynydd a'r Llu; ac
- ❖ yn goruchwyllo'r broses adrodd ariannol a fabwysiadwyd o Ganllawiau Ymarferol Pwyllgorau Archwilio CIPFA ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu.

Mae'r [Egwyddorion Gweithredu a'r Cylch Gorchwyl](#) yn sefydlu swyddogaethau craidd y JAC ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

### **3. Aelodaeth a Chyfarfodydd**

Mae'r JAC yn cynnwys pum aelod sy'n annibynnol yn sefydliadol ar Swyddfa'r Comisiynydd a'r Llu. Penodir aelodau drwy broses recriwtio a hysbysebiri yn allanol ac maent yn cael eu dewis i sicrhau y darperir y cydbwysedd cywir o brofiad ac arbenigedd. Aelodau'r JAC yw Ms Dawn Turner (Cadeirydd), Mr Andrew Blackmore (Is-gadeirydd), Mr Jonathan Sheppard, Roger Leadbeter a Dr Janet Wademan. Ni fu unrhyw newidiadau i'r aelodaeth yn ystod 2020/21.

Yn ogystal â'r aelodau annibynnol, mae'r swyddogion canlynol o Swyddfa'r Comisiynydd, y Llu a'r swyddogaethau Archwilio hefyd yn bresennol:

- ❖ Y Comisiynydd neu'r Dirprwy Gomisiynydd, Swyddfa'r Comisiynydd
- ❖ Prif Weithredwr, Swyddfa'r Comisiynydd
- ❖ Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa'r Comisiynydd
- ❖ Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfio, Swyddfa'r Comisiynydd
- ❖ Prif Gwnstabl y Llu
- ❖ Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau, y Llu
- ❖ Prif Uwch-arolygydd, Pennaeth Strategaeth, Perfformiad a Newid, y Llu
- ❖ Archwilio Mewnol (TIAA)
- ❖ Archwilio Allanol (Archwilio Cymru)

Mae swyddogion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (TCBC) (archwilwyr TG) ac SRS (darparwyr TG) hefyd yn mynychu'n achlysurol.

Mae Aelodau'r JAC yn cyfarfod yn breifat gyda'r archwilwyr cyn dechrau pob cyfarfod er mwyn sicrhau bod cyfle i godi unrhyw bryderon.

Cefnogir y JAC gan Swyddog Llywodraethu a Phennaeth Sicrwydd a Chydymffurfio. Swyddfa'r Comisiynydd.

Trefnir pum cyfarfod ffurfiol bob blwyddyn ariannol yn ogystal â diwrnod hyfforddi JAC Cymru gyfan blyneddol. Mae'r aelodau yn bresennol, er y bu hynny yn rhithiol yn bennaf eleni, ym mhob cyfarfod JAC ac eithrio mewn amgylchiadau y gellir eu hesgusodi.

### **Tryloywder**

Mae agendâu a chofnodion o gyfarfodydd JAC ar gael i'r cyhoedd ar 'wefan Swyddfa'r Comisiynydd [www.gwent.pcc.police.uk/transparency/joint-audit-committee](http://www.gwent.pcc.police.uk/transparency/joint-audit-committee). Mae copïau o gofnodion drafft y JAC hefyd yn cael eu darparu i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i'w trafod yng nghyfarfodydd y Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad.

## **4. Trosolwg o Waith Craidd a Wnaed yn ystod 2020/21**

### **❖ Cylch Gorchwyl**

Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi'r swyddogaethau craidd y mae'n rhaid i'r JAC eu cyflawni. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r Cylch Gorchwyl i asesu cydymffurfiaeth â gofynion a chanllawiau CIPFA yn 2018/19 a chafodd ei ddiweddarau yn 2019. Ni wnaeth ein hadolygiad yn 2020 nodi unrhyw newidiadau eraill yr oedd angen eu gwneud i'r Cylch Gorchwyl a nodwyd ein bod yn fodlon ein bod yn cydymffurfio wrth gyflawni ein swyddogaeth. Rhoddwyd papur cydymffurfio i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i roi sicrwydd bod y JAC wedi llwyddo i gyflawni ei ddyletsyddau yn ystod y flwyddyn.

## ❖ **Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd a Datganiad Cyfrifon 2019/20**

Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd 2019/20 i'r JAC ar ffurf ddrafft yng nghyfarfodydd Mawrth 2020 a Mehefin 2020 i'w ystyried a rhoi sylwadau.

Roeddem yn siomedig i gael gwybod bod y Datganiadau Cyfrifon, ar ôl iddynt gael eu gohirio eisoes o'r cyfarfod cymeradwyo gwreiddiol ym mis Gorffennaf oherwydd effaith COVID 19, nawr i'w gohirio ymhellach o'r cyfarfod ym mis Medi a ail-drefnwyd i fis Hydref. Roedd hyn oherwydd penderfyniad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (ac fe'i cefnogwyd gan Archwilio Cymru) ym mis Awst, i gyrff cyhoeddus ddiweddar atebolwydd pensiwn McCLoud/Sargeant yn eu Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2019/20, i adlewyrchu newidiadau i'r datrysiad arfaethedig. Roedd hyn yn destun pryder arbennig pan oedd y tîm Cyllid wedi gweithio'n galed iawn i fodloni'r dyddiadau statudol newydd a ddaeth â dyddiad cau'r cyfrifon ymlaen (er ein bod yn ymwybodol y caniateir symudiad o dan y ddeddfwriaeth), yn ogystal â'r ffaith y gallai'r penderfyniad i ddiweddaru'r ffigur atebolwydd pensiwn fod wedi'i wneud yn gynharach, neu hyd yn oed gael ei adlewyrchu mewn Nodyn i'r Datganiadau Cyfrifon. Cafodd y pryderon hyn eu codi yn ystod y cyfarfod ym mis Hydref 2020.

Wedi hynny, rhoddodd y JAC ei argymhelliad i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl y dylai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd gael ei gynnwys yn y dogfennau Datganiad Cyfrifon priodol a chyflwynwyd y fersiynau terfynol yn y cyfarfod ym mis Hydref 2020.

## ❖ **Adolygiad o'r Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol**

Mae'r Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei adolygu gan Swyddfa'r Comisiynydd a'r Llu yn flynyddol a chyflwynir unrhyw newidiadau a nodwyd i'r JAC. Wedi hynny, rhoddodd y JAC ei argymhelliad i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, i gymeradwyo'r gwelliannau i'r Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol, ym mis Mehefin 2021.

## ❖ **Archwilio Mewnol**

Mae dyletswydd ar y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i gynnal swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol. Mae'r gwaith archwilio ar gyfer y flwyddyn yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg ac mae'n canolbwyntio ar risgiau ariannol a gweithredol sylweddol.

Ers mis Medi 2016, mae'r holl archwiliadau sy'n gysylltiedig â TG wedi'u cynnal gan TCBC; Mae TIAA yn parhau i gynnal yr holl archwiliadau eraill ar ran Swyddfa'r Comisiynydd a'r Llu a Phrosiectau Cydweithio. Mae lefel y buddsoddiad mewn prosiectau cydweithredol wedi cynyddu, a bellach bydd JAC yn derbyn adroddiadau bob dwy flynedd ar wariant prosiect cydweithredol i gefnogi JAC wrth lynu wrth y Cylch Gorchwyl ac yn darparu tystiolaeth bellach ynghylch y craffu ar Werth am Arian.

Cyflwynir Cynlluniau Archwilio Blynyddol gan TIAA a TCBC i'r JAC i'w hadolygu cyn creu'r fersiwn derfynol. Cyflwynir adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaethau yn y systemau a archwilir hefyd i'r JAC.

Mae cynnydd gyda'r cynlluniau archwilio blynyddol yn cael ei fonitro ym mhob cyfarfod ac yn cael ei herio fel bo'n briodol. Roedd y JAC yn fodlon iawn â'r gwaith a wnaed gan TIAA a'u hymlyniad at y cynllun a'u modd o'i reoli.

Cytunodd y JAC fel rhan o gynllun gweithredu 2020/21 i ganolbwyntio ar yr angen i wella ymhellach wrth reoli'r cynllun archwilio TG gan TCBC a'r SRS er mwyn cyflawni nifer yr archwiliadau a ddyrannwyd yn eu cynllun yn flynyddol, gan gydnabod cymhlethdod nifer y partneriaid sy'n rhan o'r broses. Rydym yn falch o weld bod gwelliannau wedi eu cyflawni a bod y cynllun ar gyfer 2021/22 yn llai prysur ac yn adlewyrchu gwelliannau yn y maes hwn.

Oherwydd y pryderon parhaus yn ymwneud â chynnydd ar argymhellion archwilio gan yr SRS, derbyniodd y JAC adroddiadau diweddarau chwarterol gan yr SRS ar y cynnydd gyda'r argymhellion archwilio. Mae'r aelod annibynnol o JAC, Janet Wademan, ein harweinydd ar TG, wedi cwrdd â swyddogion cyllid i graffu'n ddyfnach a cheisio sicrwydd ar yr SRS a'i weithgareddau mewn perthynas â Heddlu Gwent. Dylid cydnabod cymhlethdod rhedeg sefydliad fel yr SRS gan ei fod yn gwasanaethu anghenion pum sefydliad heterogenaidd. Mae dull y consortiwm wedi gweithio'n dda yn ystod y flwyddyn eithriadol ddiwethaf hon gan ddarparu gwasanaethau hanfodol newydd ar sail ranbarthol wrth aros i systemau cenedlaethol ddod i rym.

Adolygodd y JAC Gynllun Archwilio blynyddol arfaethedig TIAA ar gyfer 2021/22 ac roedd yn fodlon ei fod yn briodol ar gyfer proffil risg Gwent, ac wedi'i alinio â hi. Gan mai TIAA oedd yr archwilwyr mewnol hefyd ar gyfer y tri llu arall yng Nghymru, rydym yn croesawu datblygiad parhaus cynllun archwilio cydweithredol ar gyfer y flwyddyn i ddod a rhannu gwersi a ddysgwyd ledled Cymru. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod angen addasu yn null y cydbwyllgorau archwilio sy'n rhan o'r cydweithio ynghylch eu goruchwyliaeth ar y cyd o'r archwiliadau cydweithredol ac rydym yn gofyn am gyfarfod rhithwir ar y cyd yn ystod 2021/22.

Er yr oeddem yn disgwyl y byddai'r cynlluniau archwilio a gynigiwyd gan TIAA a'r SRS ar gyfer 2020/21, yn amodol ar newid yn seiliedig ar unrhyw feysydd busnes a nodwyd fel rhai a oedd angen archwiliad oherwydd effaith Coronafeirws, gwelsom fod y cynlluniau wedi parhau i fod ar waith, gyda'r Prif Gwnstabl yn darparu adroddiadau chwarterol i JAC ar effaith y pandemig a sut yr oedd y llu yn rheoli newidiadau yn y galw.

## Archwiliadau Wedi'u cwblhau - TIAA

Cwblhawyd 24 archwiliad mewnol gan TIAA yn 2020/21 (gan gynnwys 12 a gynhaliwyd ar y cyd ar draws holl Heddluoedd Cymru), cafodd 10 sicrwydd 'sylweddol', cafodd 12 sicrwydd 'rhesymol', cafodd 0 sicrwydd 'cyfyngedig' a chafodd 0 'dim sicrwydd' a chwblhawyd 2 archwiliad 'dilynol' hefyd. Mae 1 archwiliad wedi'i ohirio i 2021/22 ar gais y rheolwyr.

## Archwiliadau Wedi'u Cwblhau - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae asesiadau'r 9 archwiliad a wnaed yn cadarnhau bod 7 wedi'u hasesu yn rhai sy'n darparu sicrwydd 'sylweddol/llawn' (5 yn 2019/20), dim â sicrwydd 'cymedrol' (5 yn 2019/20), dim â sicrwydd cyfyngedig (2 yn 19/20) a 2 yn gynghorol heb roi unrhyw asesiad.

Mae'r JAC wedi craffu ar bob adroddiad archwilio, fel y manylir o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

### ❖ **Hunanasesu**

Cynhaliwyd yr ymarfer hunanasesu blynyddol i adolygu perfformiad y JAC yn ystod 2020/21 ym mis Mawrth/Ebrill 2021. Roedd hyn yn caniatáu i'r canlyniadau gael eu dadansoddi ac i unrhyw ganlyniadau allweddol gael eu cynnwys yn y blaenoriaethau ar gyfer 2021/22.

Wedi i'r Aelodau adolygu'r ymarfer hunanasesu, caiff cynllun gweithredu ei ddrافتio i gefnogi gwelliant parhaus y JAC a chaiff ei adolygu bob chwarter.

Yn dilyn ymchwil am gydbwyllgorau archwilio eraill ledled Cymru a Lloegr o ran y cwestiynau a ddefnyddir yn eu proses hunanasesu, defnyddiwyd ffurflen hunanasesu newydd ar gyfer proses 2019/20. Gwelsom fod y ffurflen honno yn adlewyrchu gwaith y JAC yn fwy ac yn ennyn trafodaethau defnyddiol ynglŷn â sut y gellir sicrhau cydymffurfiaeth barhaus o gymharu â'r Cylch Gorchwyl. Gwnaethom gynnal adolygiad trylwyr o'r cynllun gweithredu a ddeilliodd o hunanasesiad 2019/20 ym mis Rhagfyr 2020 a gwelwyd ein bod wedi symud ymlaen yn dda o'i gymharu â'r cynllun, er ein bod eisoes yn nodi gwelliannau posibl yn deillio o ffyrdd o weithio yn ystod y pandemig.

Yn dilyn ein hunanasesiad blynyddol o sut mae'r JAC yn cyflawni ei ddyletswyddau fel yr amlinellir yng nghylch gorchwyl y JAC gwelsom fod yr aelodau, swyddogion ac archwilwyr yn y rhan fwyaf o achosion wedi canfod bod ein gwybodaeth am ein dyletswyddau a'n galluedd yn ein galluogi i berfformio ar lefel uchel. Fodd bynnag mae rhai meysydd yr hoffem eu gwella sy'n cael eu hadlewyrchu yn y cynllun gweithredu ar gyfer 2021/22. Yn ogystal â hyn, mae ein cynllun gweithredu yn cynnwys meysydd sy'n parhau i fod angen canolbwyntio arnynt. Mae ein cynllun gweithredu llawn ar gyfer 2021/22 yn rhan o bapurau JAC o gyfarfodydd 2021/22. Bydd y camau allweddol yn cynnwys: Fframwaith Sicrwydd Bwrdd; Swyddogaethau'r Pwyllgor, Rheoli Risg Strategol, prosiectau Cydweithio ac

archwiliadau; Alinio archwiliadau â risg; Sicrwydd o ganfyddiadau HMICFRS; Blaengynlluniau; Cyfarfodydd JAC ac Agendâu.

#### ❖ **Adolygiadau Perfformiad Blynyddol**

Mae pob aelod wedi cymryd rhan mewn proses adolygu perfformiad blynyddol. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol a phob aelod yn ystyried y broses yn ddefnyddiol. Mae'r camau gweithredu i wella gweithrediad y JAC sy'n deillio o'r broses adolygu yn cael eu hystyried gan swyddogion ac adborth yn cael ei roi i'r aelodau.

#### ❖ **Blaenoriaethu Risg**

Mae'r JAC yn parhau i wneud ymrwymiad i reoli risg. Oherwydd llwyddiant trafod y gofrestr risg ar ddechrau'r agenda yn flynyddol, cytunodd y JAC y byddai'r eitem hon yn cael ei blaenoriaethu ar yr agenda ym mhob cyfarfod yn 2020/21. Profodd hyn ei fod yn darparu'r pwyslais a ragwelwyd gennym ar faterion allweddol ac mae wedi bod yn fuddiol wrth helpu i fodloni gofynion cynnal cyfarfodydd rhithwir lle'r ydym yn trafod yr eitemau agenda â'r risg uchaf neu risg posibl yn ystod y cyfarfod ac yn rhoi sylwadau a chael adborth ar bapurau eraill drwy e-bost.

### **5. Cyflawni ein Blaenoriaethau**

Pob blwyddyn nododd y JAC yn ei Adroddiad Blynyddol y blaenoriaethau y bydd yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r adran hon yn rhoi tystiolaeth ar sut mae'r JAC wedi cyflawni'r blaenoriaethau hynny a nodwyd yn adroddiad blynyddol 2019/20.

#### ❖ **COVID**

Rhoddyd Comander Aur ar waith i oruchwylio ymateb Heddlu Gwent i COVID gan gynnal cyfarfodydd dyddiol rhwng Ebrill 2020 ac Ebrill 2021 ac yn wythnosol wedi hynny. Mae'r JAC wedi derbyn adroddiadau cynhwysfawr ym mhob cyfarfod a oedd yn rhoi gwybod am y newidiadau yn y galw, newidiadau mewn dyletswyddau, newidiadau mewn gweithgarwch troseddol, cyfleoedd a gymerwyd a meysydd o risg uwch. Cawsom hefyd archwiliad dwfn ardderchog o feysydd megis protestiadau cynyddol, cyfathrebu cymunedol ac ymateb i fwy o droseddau cyfundrefnol.

Mae ymateb Heddlu Gwent i COVID wedi creu argraff dda ar y JAC a diolchwyd i'r swyddogion sy'n darparu'r adroddiadau sydd wedi ein galluogi i fod â sicrwydd o ran gwerth y gweithgareddau a gynhaliwyd a'r cyfleoedd ar gyfer y dyfodol sydd wedi'u nodi.

#### ❖ **Hyfforddiant a Datblygu**

Mae'r aelodau wedi cymryd rhan mewn nifer o wahanol ddigwyddiadau hyfforddi er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau presennol. Yn fewnol, mae Swyddfa'r



Comisiynydd a'r Llu yn cynnal sesiynau lle caiff pwnc a nodwyd gan aelodau ei esbonio a'i drafod yn fanwl; gelwir y sesiynau hyn yn 'Archwiliadau Dwfn' ac fe'u cynhelir fel ychwanegiad i'r strwythur cyfarfod ffurfiol.

### Archwiliad Dwfn

Oherwydd y pandemig a'r angen i wasanaethau hanfodol gael eu blaenoriaethu, gwnaeth y JAC ail-flaenoriaethu'r archwiliadau dwfn y cytunwyd arnynt yn wreiddiol ar gyfer 2020/21. Cynhaliwyd y canlynol:

- Archwiliad Dwfn Briff Pencadlys - 29 Gorffennaf 2020 (roedd hwn yn disodli'r cyfarfod cyfrifon a ohiriwyd i fis Medi gan na ddigwyddodd yr archwiliad dwfn a drefnwyd ym mis Mehefin).
- Cynhaliwyd Archwiliad Dwfn Stopio/Chwilio a Defnyddio Grym a Phrotestiadau, Anrhefn Gyhoeddus ar 4 Tachwedd 2020
- Archwiliad Dwfn Trosedd Ariannol 1 Mawrth 2021 (yn hytrach na'r Archwiliad Dwfn Gwerth am Arian a ohiriwyd o fis Rhagfyr).

### Diwrnod Hyfforddi JAC Cymru Gyfan.

Gwnaethom gymryd rhan mewn dau ddiwrnod hyfforddi JAC Cymru Gyfan oherwydd hyfforddiant a ohiriwyd yn ystod 2019/20.

#### Mehefin 2020

Roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar:

- COVID a'i effaith ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gwaith archwilio mewnol
- Effaith y pandemig ar flaenoriaethau a gweithrediadau plismona
- Dull Archwilio Cymru o ymdrin â'r datganiadau ariannol

#### Mawrth 2021

Roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar:

- Materion strategol a chyllid mewn plismona
- Materion llywodraethu ac archwilio
- Swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys
- Archwilio Cymru
- Cod Rheoli Ariannol CIPFA

Gwnaethom groesawu'r gydnabyddiaeth bod angen gwneud mwy ar Werth am Arian ac rydym yn edrych ymlaen at weld set gyson ond teg o fesurau ar gyfer gweithrediadau'r heddlu wedi'u rhyng-gysylltu â rheolaeth ariannol.

Mae gweithgarwch cydweithio cynyddol ar draws pedwar Heddlu Cymru o ran archwiliadau mewnol ar y cyd a phrosiectau gwella ar y cyd. Roeddem o'r farn y dylai'r 4 JAC yng Nghymru, wrth symud ymlaen, gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn drwy gyfarfod rhithiol i drafod y ddau faes cydweithio hyn. Gallai hyn fod yn rhan o'r diwrnod hyfforddi neu gyfarfod â phwyslais ar wahân.

### ❖ **Credydwy'r a Dyledwy'r**

Mae credydwy'r a dyledwy'r yn faes y mae'r JAC wedi parhau i graffu'n fanwl arno yn ystod 2020/21 i sicrhau bod gwelliannau yn eu prosesu yn cael eu gwneud. Dangosodd adroddiad argymhellion archwilio dilynol a gafwyd yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr fod y balans sy'n weddill o daliadau dyblyg yr oedd angen eu hadennill wedi ei lleihau'n sylweddol gan fod gwaith wedi'i wneud i adennill taliadau.

Roeddem hefyd yn falch o nodi gweithrediad y polisi 'Dim Rhif Archeb Dim Tâl' a ddechreuodd ar 1 Chwefror 2020. Er gwaethaf effaith y cyfnod clo Covid, mae nifer yr anfonebau â rhif archeb sydd wedi'u talu wedi cynyddu ychydig ac wedi'i gynnal ar tua 35% o'r holl anfonebau dros y cyfnod. Bu gwelliant amlwg hefyd yn nifer y dyddiau a gymerwyd i dalu cyflenwyr a'r targed o lai na 30 diwrnod yn cael ei gyflawni yn gyson. Mae hyn, ynghyd â mwy o fonitro bob mis, wedi sicrhau bod problemau blaenorol gyda chredydwy'r, dyledwy'r a thaliadau dyblyg wedi lleihau'n sylweddol.

### ❖ **Cau'r Cyfrifon yn gynnar**

Er bod Swyddfa'r Comisiynydd a'r Llu wedi gallu bodloni'r dyddiad cau statudol cyntaf o 31 Gorffennaf 2019 i gymeradwyo cyfrifon 2018/19, roedd y JAC yn siomedig, oherwydd gofyniad technegol ar draws y gwaith ynghylch rhwymedigaethau pensiwn, na chafodd y dyddiad cau ei fodloni ar gyfer cyfrifon 2019/20.

Fel yn achos blynyddoedd blaenorol, er bod llai ohonynt o ran nifer, cafwyd problemau yn ystod cyfnod cynhyrchu'r cyfrifon ac yn ôl yr arfer mae'r tîm cyllid wedi cynhyrchu cynllun gweithredu gwersi a ddysgwyd sy'n cael ei fonitro gan y JAC ac sy'n gweithredu newidiadau pellach sydd eu hangen i sicrhau nad yw'r un problemau yn codi wrth gynhyrchu cyfrifon 2020/21.

Mae'r JAC yn falch o ddweud bod cynhyrchu cyfrifon 2020/21 wedi datblygu'n dda.

### ❖ **Storio Eiddo sy'n Dystiolaeth**

- ❖ Ym mis Rhagfyr 2019 cododd y JAC bryderon o ran y sgôr sicrwydd cyfyngedig ar Blismona Lleol - Eiddo ac Arian Parod gan fod gan archwiliad 2018 sgôr sicrwydd cyfyngedig hefyd. Yn dilyn archwiliad 2018 sefydlwyd Tîm Prosiect Rheoli Tystiolaeth er mwyn mynd i'r afael â'r materion ac fe roddwyd gwelliannau ar waith ond parhaodd adroddiad 2019 i godi materion ynghylch perchnogaeth a chyfrifoldeb. Cynhaliwyd adolygiad pellach o weithrediadau a datblygwyd achos busnes i weithredu model rheoli fel y gweithredir yn Dorset. Gwnaed cynnydd gyda'r camau rheoli archwilio ond nid ydynt wedi'u cwblhau yn llawn hyd yn hyn ond fe fyddant yn rhan gynnar 2021/22. Mae Storio Tystiolaeth hefyd yn rhan o'r Gofrestr Risg Strategol ac mae gan y JAC oruchwyliaeth barhaus o'r cynnydd wrth reoli'r risg ac mae'n gallu gweld camau'n cael eu cymryd.

### ❖ **Gwasanaeth Adnoddau a Rennir**

- ❖ Mae'r JAC wedi monitro'n agos cwblhau cynllun archwilio mewnol TCBC i sicrhau bod yr holl archwiliadau sy'n weddill yn cael eu datblygu. Er mwyn sicrhau bod yr argymhellion hynny a oedd â'r flaenoriaeth uchaf yn cael sylw yn gyntaf, gwnaed cais i'r SRS bod argymhellion yn cael eu hystyried yn gyfannol yn hytrach na rhoi blaenoriaeth i'r argymhellion a gynhwysir o fewn adroddiad sicrwydd 'cyfyngedig'. Roedd y JAC yn falch o weld cynnydd sylweddol eleni.

Er mwyn deall mwy am reolaeth a darparu gwasanaethau'r SRS, ers y cyflwyniad i JAC ym mis Rhagfyr 2019 gan yr SRS, mae ein haelod annibynnol ac Arweinydd TG, Janet Wademan, wedi cael cyfarfodydd ar wahân gyda swyddogion cyllid i gael sicrwydd parhaus, yn arbennig ynghylch Adfer o Drychineb, bod materion yn parhau i wella ac adroddodd yn ôl i'r JAC. Mae hyn wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol ac wedi galluogi'r JAC i reoli craffu priodol ochr yn ochr ag agendâu heriol yn 2020/21.

Gofynnwyd hefyd i Reolwyr TCBC IA a SRS fynychu cyfarfodydd y JAC pe bai archwiliad SRS yn derbyn sgôr sicrwydd cyfyngedig. Byddai hyn yn galluogi craffu agosach a hefyd yn caniatáu i'r JAC ddeall y rhesymeg dros benderfyniadau a wneir o ran argymhellion yr archwiliad.

### **Blaenoriaethau ar gyfer 2021/22**

#### ❖ **Hyfforddiant a Datblygu**

Er mwyn parhau i ddatblygu ac adeiladu ar sgiliau'r JAC, mae sesiynau 'Archwiliad Dwfn' yn cael eu hystyried yn y meysydd canlynol:

- Adolygiad Gwerth am Arian Blynnyddol – Mehefin 2021;
- Model Gweithredu'r Heddlu - Gorffennaf 2021;
- Gwrth-dwyll a Llygredd - Medi 2021;
- Cynllun yr Heddlu a Throsedd – Rhagfyr 2021 a
- Adolygiad Gwerth am Arian Blynnyddol - Mawrth 2022

Mae'r meysydd uchod yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd busnes a bydd yn helpu i gefnogi'r ddealltwriaeth o waith ehangach Swyddfa'r Comisiynydd a'r Llu ymhellach.

#### ❖ **Cau'r Cyfrifon yn Gynnar - 2020/21**

Rydym yn falch bod y cyfrifon wedi gallu cau ar amser eleni ar ôl y siom o gau yn hwyr ar gyfer 2019/20 oherwydd datganiadau atebolrwydd pensiwn. Diolchwn am ymdrechion swyddogion mewnol ac Archwilio Cymru yn arbennig am gyflawnder y cyfrifon ar gyfer ein cyfarfod ym mis Mehefin.

#### ❖ **Adolygiad o'r Adran Gyllid**

Roeddem yn falch o weld penodiad Matt Coe yn Bennaeth Cyllid ac rydym yn cefnogi ei gynigion yn llawn i ailstrwythuro'r tîm cyllid ymhellach. Rydym yn falch,

yn dilyn cyfarfod Mehefin 2021, bod y strwythur newydd wedi'i gymeradwyo a'i weithredu.

#### ❖ **Gwasanaeth Adnoddau a Rennir – Cynlluniau Archwilio**

Mae'r JAC yn parhau i godi pryderon am y dull archwilio yn enwedig perthnasedd yr argymhellion archwilio a godwyd ac effeithiau canlyniadol ar lwyth gwaith. Mae'r JAC wedi cytuno i barhau i fonitro'n agos cynllun archwilio mewnol TCBC i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod yr holl archwiliadau a gynlluniwyd yn cael eu cwblhau'n flynyddol, a bod adnoddau digonol yn cael eu darparu gan yr SRS wrth gyflawni elfennau Heddlu Gwent o gynllun archwilio 2021/22.

Bydd y JAC yn parhau i fonitro'r holl argymhellion archwilio sy'n weddill drwy'r adroddiad Argymhellion Archwilio sy'n Weddill chwarterol a chodir unrhyw bryderon gyda'r Prif Swyddog Cynorthwyol, Adnoddau i roi adborth i'r SRS.

#### ❖ **Gwasanaeth Adnoddau a Rennir – Rheoli Dilyniant Gwasanaeth**

Oherwydd y pryderon sydd gan y JAC mewn perthynas â'r maes gwaith hwn bydd pwyslais yn parhau i gael ei roi ar sicrhau bod y camau hyn yn cael eu cwblhau. Bydd y camau sy'n weddill yn parhau i gael eu monitro'n agos nes eu bod wedi'u cwblhau.

#### ❖ **Adeiladu Pencadlys yr Heddlu**

Gan fod y gwaith o adeiladu Pencadlys yr Heddlu wedi dechrau croesawodd y JAC gyflwyniad cynhwysfawr o hanes y prosiect, sut y gwnaed penderfyniadau newid a'r cynlluniau manwl ar gyfer cwblhau dros 2020 a 2021. Cyfarfu ein haelod annibynnol a'r arweinydd ystadau, Roger Leadbeter, â'r swyddogion cyllid ar wahân i ddeall y risgiau a'r cyfleoedd sydd yn deillio o ddatblygu'r pencadlysoedd newydd, Hwb Torfaen ac eiddo yn y Fenni ac roedd yn werthfawrogol iawn o'r cyflwyniad cynhwysfawr a chadarnhaol, yn enwedig y prosiectau sydd i ddod ar gyfer Torfaen a'r Fenni. Edrychwn ymlaen at ragor o gyflwyniadau ar y prosiectau hyn wrth i'r achosion busnes gael eu datblygu. Rydym yn falch bod rhagamcanion ariannol a'r amserlen ar darged ac nid ydynt wedi cael eu heffeithio yn sylweddol gan y pandemig. Byddwn yn parhau i fonitro sefydlu'r Pencadlys ac yn ceisio cael sicrwydd o'i werth am arian drwy gydol 2021/22. Edrychwn ymlaen at gael cyfarfod yn yr adeilad newydd.

#### ❖ **Gwerth am Arian**

Oherwydd rôl y JAC o ran Gwerth am Arian, roedd ein cynllun gweithredu'n cynnwys cael mwy o wybodaeth o Broffiliau Gwerth am Arian a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) fel rhan o archwiliad dwfn gwerth am arian blynyddol a oedd i fod i gael ei gynnal ym mis Rhagfyr 2020. Cafodd ei ohirio tan fis Mehefin 2021 oherwydd blaenoriaethau COVID. Roeddem o'r farn bod y cyflwyniad wedi'i ategu yn fwy gan wybodaeth am berfformiad a chost a oedd yn gysylltiedig â'r galw a'r

canlyniadau ac felly'n caniatáu cynnydd ar asesu gwerth am arian. Fodd bynnag, rydym yn parhau i geisio sicrhau mwy o gydberthynas rhyngddynt ac i hyn fod ar gael yn uniongyrchol i Heddlu Gwent o'r data canolog oherwydd ar hyn o bryd maent yn parhau i orfod cyflawni gwaith dadansoddi sylweddol i gael gafael ar yr wybodaeth gymharol.

## 6. Casgliad

Yn seiliedig ar waith craffu'r JAC ar y wybodaeth a ddarparwyd a'i ymholiadau gyda'r rheolwyr yn ystod 2020/21, nid yw'r JAC yn fodlon y gall y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fod â sicrwydd bod eu rheolaeth, eu sefyllfa risg a llywodraethu ar gyfer 2020/21 yn briodol. Wrth wneud hynny mae'r JAC yn parhau i dynnu sylw at y cyfle i geisio mwy o sicrwydd o ran sefyllfa rheoli risg Prosiectau Cydweithio ar sail arfaethedig. Mae'r JAC wedi bod yn fodlon â rheolaeth risg COVID ac adeiladu'r pencadlys newydd ac mae'n gobeithio yn dilyn cyfarfod mis Gorffennaf na fydd angen y gofyniad am bapurau ar wahân ar gyfer pob cyfarfod wrth symud ymlaen ac y bydd modd goruchwyllo'r risgiau hyn gan y JAC fel rhan o eitem agenda rheoli risg arferol. Mae'r JAC yn ystyried y datblygiadau a'r newidiadau yn yr adran gyllid yn rhai pwysig iawn a byddwn yn parhau i fonitro eu gweithrediad ac unrhyw effaith ar ei allu i ymgymryd â'r gweithrediadau misol, rheoli cyllidebau a chynhyrchu cyfrifon gan gynnwys y broses archwilio.

Wrth benderfynu ar y casgliad hwn, mae'r JAC wedi rhoi sylw dyladwy i waith y ddau ddarparwr archwilio mewnol ac mae'n falch o nodi mai'r farn archwilio flynyddol gan TIAA yw bod gan *'Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl brosesau rheoli, rheolaeth a llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith i reoli cyflawni eu hamcanion ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn'*.

Mae'r JAC yn fodlon, ar 1 Mawrth 2021, bod Cynllun Archwilio blynyddol TIAA ar gyfer 2021/22 yn briodol ar gyfer proffil risg Gwent, ac wedi'i alinio ag ef.

O ran archwiliadau TG, derbyniodd yr SRS sgôr sicrwydd cyffredinol o *'Foddhaol yn gyffredinol, angen rhywfaint o welliant'* gan TCBC.

Mae'r JAC yn falch o'r gwelliannau parhaus sy'n cael eu gwneud yn yr SRS i gefnogi cwblhau'r argymhellion archwilio.

Mae'r JAC wedi cadarnhau ei gydymffurfiaeth â'i Gylch Gorchwyl yn ystod 2020/21 ac wedi cael gwybodaeth briodol gan Swyddfa'r Comisiynydd a'r Llu i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau.

Gofynnir i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl nodi'r adroddiad hwn fel crynodeb o waith a chanfyddiadau'r JAC ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.